



06

Esgyn /
Uprisings

Rebecca Gould

19.07 - 09.11.2014

Rebecca Gould

19.07 - 09.11.2014

Esgyn /
Uprisings

Mae Rebecca Gould, a aned ym 1980 yn yr Alban ac sy'n byw yng Nghaerdybi yn creu gwaith fedr gael ei ddisgrifio fel 'uniongyrchol'. Wrth graidd ei gwaith y mae disyfydrwydd y weithred a grym trawsnewidiol yr ystum celfyddydol. Cyflwynir y gwaith mewn aml i ffurf, megis cerflunio, peintio, fideo a mewnosodiad dros dro a defnyddir amrywiaeth eang o ddeunyddiau. Fe'n gwahoddir i werthfawrogi hanes y gwrthrych a natur drawsnewidiol pob elfen ohono. Mae'n broses o ddynesiad cyson tuag at rywbeth, sy'n aros yn anorffenedig. Gyda chelf Gould, mae fel petaem ni'n cyweirio ein dillad er mwyn iddynt ein ffitio'n well.

Born in 1980 in Scotland and based in Holyhead, Rebecca Gould makes work that can be described as 'urgent'. At the core of her practice is the immediacy of the act and the transformative power of the artistic gesture. Her work takes multiple forms, such as sculpture, painting, video and provisional installation and it uses a wide range of materials like plastic sheeting, paint, plywood, papier-mâché, bubble wrap and television monitors. We are invited to appreciate the sense of history of the object and the transitional character of each of its elements. It is a process of constant approximation towards something, which stays unfinished. With her art, it is as if we keep making slight adjustments to our clothes in order for them to fit us better.

Alfredo Cramerotti,
Cyfarwyddwr / Director, MOSTYN



→
IMAGE / DELWEDD
Claire Danes, 2014



Cyfweliad gyda / An interview with Rebecca Gould



Alfredo Cramerotti: Beth am gychwyn gyda chwestiwn sy'n ymwneud â methodoleg. Sut ydych chi'n ymdrin â'r gofod pan ydych yn gweithio tuag at arddangosfa?

Rebecca Gould: Yn ddiweddar, mae pethau wedi newid. Ar gyfer yr arddangosfa hon bydd yn gyfodiad safle-benodol, gyda nodweddion unigryw'r gofod h.y. uchder, math o lawr a.y.b. yn cael eu hystyried. Rwyf yn gweithio gan gadw mewn cof, o flaen llaw, lleoliad y gwrthrychau mewn perthynas â'r gofod h.y. fideo, bwced felen, y lliw, cyfansoddiad penodol neu'r hyn sydd am ddiwydd yn y gornel honno, er ei bod yn debyg y bydd yn newid yn ystod y cyfnod o fewnosod. O'r blaen, roedd y gwaith yn ei gadw ei hunan o fewn y gofod, er enghraifft, mewnosodiad fideo wedi ei gyflwyno fel cerflun. Gallai ei fod wedi ei oleuo fel gwaith safle-benodol, ond nid oedd bron unrhyw newid yn yr ystafell ar wahân i'r goleuo. Nawr, mae'n wahanol, mae'n fwy rhydd, mewn ffordd.

AC: Ai'r gwaith sydd wedi newid, ei elfennau, ynteu'r dull o ymdrin â'ch gwaith? Mae'n swnio fel petai gennyh nawr ymgom fwy cynhyrchiol rhwng eich gwaith a'r gofod, sy'n caniatáu i'r naill ddylanwadu ar y llall.

RG: Roedd y gwaith fyr yn fwy caeedig, ac mae nawr wedi ffrywdro, mae'n fwy ehangedig, wedi ei dynnu'n ddarnau. Am wn i, mae wedi ei ddyrannu hyd at y pwynt ble rydych yn eich canfod eich hun yn edrych ar y manylion sy'n creu un darn neu wrthrych.

AC: Rydych yn dilyn proses greadigol ble rydych yn cydosod neu adeiladu darn ac yna mae gan hwnnw ei fywyd ei hun gydag arddangosfeydd dilynol, gyda fersiynau gwahanol, fel petai. Fyddech chi crystal ag ymhelaethu ar y broses hon?

RG: Mae gan bob gwrthrych ei fywyd a'i

Alfredo Cramerotti: Let's start with a methodological question. How do you move towards the space when working for an exhibition?

Rebecca Gould: Recently things changed. For this exhibition it will be very much a site-specific assemblage, taking into account the peculiarities of the space i.e. height, floor type, etc. I am working in advance with the position of the objects in mind in relation to the space i.e. a video, a yellow bucket, the colour, a certain composition or what is going to happen in that corner, though it will probably change during the installation phase. Before, the work was quite self-contained within the space, for example a video installation presented as a sculpture. It could have been lit like a site-specific work, but there was almost no change in the room apart from the lighting. Now it is different, it is freer, in a sense.

AC: Is it the work that changed, its elements, or the approach to your work? It sounds like now you have a more productive dialogue between your work and the space, allowing them to influence each other.

RG: The work before was more closed, whilst now it has exploded, it's more expanded, pulled apart. I guess it's dissected to the point that you find yourself looking at the details that constitute a single piece or object.

AC: You adopt a creative process in which you assemble or construct a piece and then this takes on a life of its own with subsequent exhibitions, with different versions so to speak. Can you talk a bit more about this process?

RG: Each object has its own life and history, and each will go on to be something else, to be part of something new but also with its old features recognisable. It can be re-placing the

hanes ei hun, a bydd pob un yn mynd ymlaen i fod yn rhywbeth arall, i fod yn rhan o rywbeth newydd ond gyda'i hen nodweddion yn amlwg. Gall hyn fod trwy ail-ddodi'r gwrthrych neu ei ddefnyddio i adeiladu gwrthrych arall, neu ddefnyddio dim ond rhai rhannau er mwyn i gyfansoddiadau eraill ymddangos, heb wadu ei fywydau blaenorol. Y nod yw creu llestr o'r gwrthrych.

AC: Pa mor bwysig yw hi eich bod yn cadw'r llinell amser hon yn y golwg, bod defnyddiau neu fywydau cynharach y gwrthrych yn ddarllenadwy?

RG: Rwy'n cadw gwrthrychau am amser hir, ac rwy'n eu hail-ddarganfod yn araf deg, yn annisgwyl bron. Mae'n cyrraedd pwynt ble rydw i'n eu gweld unwaith eto yn segur yn fy stiwdio ac rwy'n gwybod bod rhaid i mi newid rhywbeth gyda nhw. Mae fy ngenhedlaeth i o'r 1990au yn defnyddio llawer o estheteg boblogaidd ac mae hyn i mi, erbyn hyn, yn beth dyrys. Felly, efallai, trwy fy isymwybod rwy'n eu hatgyfodi er mwyn gweld beth all ddiwydd, 'cywiro' fy ngwaith blaenorol gyda fersiynau newydd. Fel y darnau penodol yr ydw i'n eu hystyried yn fethiannau blaenorol, megis dyfrlliwiau sy'n bastiche o estheteg clymu a llifo'r 90au, cant eu gwanedu o'u gosod ymysg gwrthrychau eraill i greu cyfodiad. Er bod y baich symbolaidd yn amlwg, mae'r cyweddiad newydd yn ehangu'r dehongliad. Mae'r broses a'r llinell amser yn bwysig, mae'r paratoi drwyddi draw yn bwysig.

AC: Ond dydych chi ddim yn defnyddio darluniau na'r brasluniau i baratol ar gyfer arddangosfa yn y gofod..

RG: Na, ddim o gwbl. Rwy'n gweithio mewn ffordd beintwrus, gydag ymdeimlad o 'uniongyrchedd' fel bu i chi ei ddiffinio ynghynt. Rwy'n gwneud pethau mewn ffordd benboeth, gyda chyfnodau byrion o weithgaredd ble rwyf yn gwneud rhywbeth, ac yna cyfnodau hirion ble

object or using it to build another object, or using only some parts for other compositions to appear, without denying its previous lives. It's about making the object a vessel.

AC: How important is it that you leave this timeline visible, the previous uses or lives of the object readable?

RG: Objects stay with me for a long time, and I usually rediscover them gradually, almost unexpectedly. It comes to a point that I see them again lying around in my studio and I know I have to make something with them. My generation of the 1990s uses a lot of pop aesthetics and now I find it a bit problematic, so maybe unconsciously I am bringing them back to see what can happen, 'correcting' my previous work with new versions. Like certain pieces that I perceive as past failures, such as watercolours that become a pastiche of 90's tie-dye aesthetics, are diluted when placed amongst objects comprising an assemblage. Although the symbolic baggage is visible, its new appropriation opens up the reading. The process and the timeline are important. Drawing is important, my sketches and scribbles are important, the whole lot of preparation is important.

AC: But you don't use the drawings or the sketches to plan for an exhibition in the space..

RG: No, not at all. I work in quite a painterly way, with a sense of urgency as you defined it before. I do things fanatically, with short bursts of activity in which I make something, and then long periods in which I sit and let the work 'seep in' and eventually re-work it. This happens not only in the studio but also in the exhibition space itself. I want to visualise the work quickly to maybe change it later.

AC: So you use the objects as a 3-D sketchbook in the space?



IMAGE / DELWEDD
Untitled, 2013

Cyfweliad gyda / An interview with Rebecca Gould

IMAGE / DELWEDD
Heather Shimmer, 2013

Esgyn /
Uprisings



rwy'n segur ac yn gadael i'r gwaith drwytho a byddaf, maes o law, yn gweithio arno o'r newydd. Mae hyn yn digwydd, nid yn unig yn y stiwdio, ond hefyd yn y gofod arddangos ei hun. Rwyf eisiau cael gweledigaeth o'r gwaith yn gyflym er mwyn efallai ei newid yn ddiweddarach.

AC: Felly, rydych yn defnyddio'r gwrthrychau fel llyfr braslunio 3-D yn y gofod?

RG: Ydw. Rhywbeth felly. Rwy'n newid pethau hyd at y funud olaf.

AC: O sgwrsio am ddelwedd, mae eich gweithiau fideo'n fyr iawn, a'r mwyafrif ohonynt heb sain. Allech chi egluro mwy am y modd yr ydych yn defnyddio fideo fel cyfrwng?

RG: Yes, something like that. I change things up to the last minute.

AC: Talking about visualisation, your video works are very short, and most of them silent. Can you explain more about how do you use video as a medium?

RG: I am not a filmmaker. I use the medium the same way I would use plaster or paint. I like to film a little bit and then loop it so there is this horrible jagged thing of the joints that adds something to the reading and pace of the work. I use video as a tool and nothing more.

AC: Do you use and transform the videos the same way as the other material?

RG: - Not really. I re-use footage that

RG: Nid gwneuthurwr ffilm ydw i. Rwy'n defnyddio'r cyfrwng yn yr un ffordd ag y byddwn yn defnyddio plastr neu baent. Rwy'n mwynhau ffilmio ychydig a'i roi ar gylched fel bod rhyw beth tolciog, hyll am y cymalau sy'n ychwanegu at y dehongliad a chyflymdra'r gwaith. Rwy'n defnyddio fideo fel erfyn a dim mwy.

AC: Ydych chi'n defnyddio ac yn gweddnewid y fideos yn yr un modd a deunyddiau eraill?

RG: Ddim mewn gwirionedd. Rwy'n ail-ddefnyddio ffilmau sydd gen i yn barod, er enghraifft ffilmio o flaen teledu i greu haen ddwbl, i ansefydlogi'r modd ydych yn dehongli gwaith ffilmaidd, ond dim mwy na hynny. Nid wy'n treulio llawer o amser yn golygu, deall y feddalwedd; mae'n ffordd uniongyrchol o wireddu rhywbeth. Rwy'n gweld beth sy'n digwydd, os yw rhywbeth yn llwyddiannus.

AC: Pa mor bwysig yw hi i fod â rheolaeth dros bethau?

RG: Hynod. Arnaf i mae'r cyfrifoldeb, fy llaw i. Nid oes unrhyw gaffaeliad o'r tu allan; mae fy ngwaith wedi ei greu yn llwyr yn y stiwdio. Mae'r meddwl a'r weithred o greu yn hanfodol. Mae elfen o berfformio yn perthyn i'm gwaith sydd ddim yn rhan o'r canlyniad ond yn rhan o'r broses.

AC: Fe'm trawyd bod gwrthddweud diddorol yma. Mae'r agwedd o reolaeth bron yn antithesis i'r ffaith nad ydych yn cynllunio, a'ch bod yn newid pethau trwy'r adeg hyd at y funud olaf. Ydych chi'n cytuno?

RG: Ydw, mae'n ddiddorol. Yn ystod fy mywyd, rwyf wedi symud a mudo lawer gwaith, ddeng gwaith ar hugain hyd yn hyn, a phan symudwn i le newydd roeddwn yn ymgymryd yn syth â haenu, arwisg, gorchuddio, newid yr estheteg ac addasu'r hyn a ganfyddwn, fel erfyn i gael rheolaeth dros y gofod. Efallai

I already have, for instance filming in front of a TV to create a double layer, to sort of destabilise the way you read a filmic work, but not more than that. I don't spend much time at editing, knowing the software; it's just an immediate way to realise something. I see what happens, if something works.

AC: How important is it to be in control of things?


RG: Very. It has to be me, my hand. There is no outsourcing; I am totally studio-based practice. The thinking and the physicality of making are crucial. There is a performative element in my work that is not part of the outcome but is part of the process.

AC: It struck me that there is an interesting contradiction here. The control aspect is almost in antithesis to the fact that you don't plan, and you change things all the time up to the last minute. Would you agree?

RG: Yes, interesting. In my life I have moved and relocated a lot, thirty times so far, and when I moved somewhere new I was immediately engaged in layering, cladding, covering, changing the aesthetics and adapting what I found, as a tool to be in control of the space. Maybe this can explain my attitude towards the work, the physicality of making, breaking, performing through the work.

AC: So the adaptability and transformability of the material are important aspects. It seems to me that you replace yourself with the objects of your work; better said, you make the objects act and perform on your behalf, with a tight control on how they interact with each other and with the space.

RG: Yes. Although I am quite a shy person, at the same time I can be very bold and not like that at all. So you



Cyfweliad gyda / An interview with Rebecca Gould



bod hyn yn medru egluro fy agwedd tuag at y gwaith, y weithred gorfforol o greu, malu, perfformio trwy'r gwaith.

AC: Felly, mae hyblygrwydd a natur gyfnewidiol y deunydd yn agweddau pwysig. Ymddengys i mi eich bod yn eich disodli eich hun gyda'r gwrthrychau; neu yn hytrach, eich bod yn gwneud i'r gwrthrychau ymddwyn a pherfformio ar eich rhan, gan reoli'n llym y modd y maent yn rhwyngweithio gyda'i gilydd a chyda'r gofod.

RG: Yn wir. Er fy mod yn berson go swil, ar yr un pryd rwy'n medru bod yn eofn iawn ac nid felly o gwbl. Felly, mae'r gwrthygyferbyniad yn bodoli, sy'n cael ei adlewyrchu yn fy ngwaith; y darnau wedi eu torri'n llym a'u siapio a'r lliw cynnil a'r nodau atgoffa ysgafn, rhyw dynfa-wthiad y gwrthrychau'n gweithio yn eu herbryn ei gilydd. Ac ie, mae'r siapiau cryfion a gosodiadau eofn y gwaith yn cyferbynnu â breuder a natur fyrhoedlog y deunydd, sy'n medru cael ei chwalu'n rhwydd. Hynny yw, nid yw wedi ei greu o efydd, papier-mâché a ddefnyddiwyd. Ond mae'n ymddwyn fel darn beiddgar, ac mae'r uniongyrchedd a ddaw yn sgil defnyddio'r deunydd hwn yn fy ngalluogi i ehangu'r gwaith yn llwyr, i ofyn cwestiynnau yr wyf am eu harchwilio ar y pryd, i alluogi'r broses o feddwl a'r broses o arsyllu i ddigwydd yn y gofod.

Rwy'n fy ystyried fy hun yn beintiwr, mewn sawl ffordd. Y cyfansoddiad, y lliw, y fateroliaeth; mae'r prif bethau sy'n digwydd yn fy ngwaith yn adlewyrchu'r peintiwr. Er mai cyfosodiad yw'r canlyniad, yr hyn sy'n digwydd yw'r berthynas rhwng cydrannau, lliwiau ac elfennau: hynny yw, elfennau sylfaenol peintio. Rwy'n ystyried fy mhreactis fel modd o ehangu ar beintio, bob amser yn esblygu i wahanol gyfeiriadau. Er fy mod yn defnyddio deunyddiau sydd ddim yn draddodiadol, rwy'n artist eithaf traddodiadol yn y

have this contrast, which is reflected in my work; the harshly cut and shaped pieces and the subtle colour and delicate reminders, a sort of push-pull of objects working against each other. And yes, the strong shapes and bold positions of the work are at odds with the fragility and ephemerality of the material, which is easily destroyed. I mean, it's not cast out of bronze, it's papier-mâché. But it functions as a very bold piece, and the immediacy of being able to use this material allows me to open the work up completely, to ask questions that I want to explore at that very moment, to allow the thinking process and the looking process to happen in the space.

I think of myself as a painter, in a lot of ways. The composition, the colour, the materiality; the main things happening in my work are all painterly. Though the results are assemblage, what is happening is the relationship between components, colours and elements: that is, the basics of painting. I see my practice as a form of expanded painting, always evolving in various directions. Although I use non-traditional materials, I am quite a traditional artist for the way I work, considering the importance of the studio space, the gesture, and the object.

AC: A major difference is that you constantly re-elaborate your paintings, you always paint over them and transform the earlier versions of the work into something else, in an endless cycle of iterations. There is never a final outcome. The process is almost digital in that... There is something about the 'unfinished' in your work. What is your idea about it?

RG: - The pieces I made have their own sense of history, in a sense. You mentioned that my process is akin to media artists in that they produce constantly new versions in

modd yr wyf yn gweithio, o ystyried pwysigrwydd y gofod stiwdio, yr ystum, a'r gwrthrych.

AC: Un gwahaniaeth mawr yw'r ffaith eich bod yn ail-goethi eich peintiadau'n gyson, rydych bob amser yn peintio drostynt ac yn gweddnewid fersiynau cynharach o'r gwaith i rywbeth arall, cylch di-ddiwedd o ailadrodd. Nid oes fyth ganlyniad terfynol. Mae'r broses bron yn ddigidol yn hynny... Mae rhywbeth ynglyn â'r 'anorffenedig' yn eich gwaith. Beth ydych chi'n feddwl o hyn?

RG: Mae gan y darnau yr wyf wedi eu creu eu hanes ei hunain, mewn ffordd. Fe soniasoch fod fy mhroses i yn ymdebygu artistiaid cyfryngol yn y modd eu bod yn creu fersiynau newydd yn ddi-baid ble maent yn defnyddio adborth gan gyfoedion a gwylwyr. Mae popeth yn symudol a phopeth ynghanol cael ei weddnewid. Mae hynny'n debyg, ydi. Ond, ni fuaswn yn f'ystyried fy hun yn artist digidol, gan fy mod yn rhoi pwyslais mawr ar fateroliaeth y gwaith. Er, am wn i, o ran proses, rydych yn llygad eich lle; mae rhywbeth am y lliw anorffenedig sy'n digwydd dro ar ôl tro.

AC: Beth yw'r sŵn bipian yn y cefndir?

RG: O, dyna'r monitor babi... rwy'n credu ei fod yn gweddu i'r darn.

AC: I mi, rwy'n teimlo bod hynny'n braf oherwydd ei fod yn rhoi rhyw syniad o amser sydd, rhywfodd, yn gysylltiedig â'ch ffordd chi o weithio.

which they use the feedback of peers and viewers. Everything is in transit and everything is in transformation. That is similar, yes. But to think of myself as a digital artist would not be my perception, since I put a lot of importance on the materiality of the work. Though, I guess, process-wise, you're right; there is something about the unfinished flux that reoccurs.

AC: - What is this bleeping sound in the background?

RG: - Oh that's the baby monitor... I think it sits well in the piece.

AC: - I find that it's quite nice actually because it gives a sort of sense of time which somehow relates to the way you work.

Holl weithiau gan /
All works by Rebecca Gould

—
Claire Danes, 2014
Video still

—
Untitled, 2013
Watercolour on paper
21x 29.7cm

—
Heather Shimmer, 2013
Installation
Chicken wire, plaster of
paris, chipboard, woodchip
wallpaper,
household paint, fabric,
fabric paint and beaded
curtain
259 x 278 x 114cm

—
Claire Danes, 2014
Carpet underlay, plastic
sheeting, paint,
birch plywood, papier-mâché,
watercolour on papers,
bucket, bottle, bubble wrap,
mod roc, toothpaste beaker,
gemstones, baby monitor,
television monitors, DVD
players and looped DVDs
Dimensions variable approx.
240 x 382 x 494cm

—
New Look, 2014
Watercolour on paper, New
Look plastic bag,
shelf, paint, pen,
brackets, slate and unfired
clay
75 x 67 x 21cm

•
Esgyn / Uprisings
Cynhyrchir y cyhoeddiad hwn i
gydfynd ag arddangosfa Esgyn
gan Rebecca Gould fel rhan o
raglen Oriol 6.

•
MOSTYN, 19 Gorffennaf - 9
Tachwedd 2014

—
Curadur yr arddangosfa
yw Alfredo Cramerotti,
Cyfarwyddwr, MOSTYN

—
Mae Esgyn yn rhoi
arddangosfeydd unigol i
artistiaid ifanc ac egin
artistiaid sydd heb eto
gael arddangosfa unigol
mewn sefydliad, naill
ai'n genedlaethol neu'n
rhyngwladol. Mae'n galluogi'r
artist i weithio dan amodau
proffesiynol a chyflwyno
eu gwaith i gynulleidfa
ehangach.

—
Mae Esgyn yn bosib diolch i
gefnogaeth hael: Sefydliad
Esmée Fairbairn.

—
Mae cofnod catalog o'r
llyfr hwn ar gael gan
Lyfrgell Genedlaethol Cymru
a'r Llyfrgell Brydeinig.
Cyhoeddiad © 2014 MOSTYN
a'r awduron.

—
Cyfieithu: Rhian Green
Dylunio: Elfen

•
This publication has been
produced to accompany the
Uprisings exhibition by
Rebecca Gould, as part of
Gallery 6's programme.

•
MOSTYN, 19 July - 9 November
2014

—
Exhibition curated by Alfredo
Cramerotti, Director, MOSTYN

—
Uprisings gives solo
exhibitions to young and
emerging artists who are
yet to receive a solo
exhibition in an institution
setting, either nationally
or internationally. It
allows artists to work under
professional conditions
and present their work to a
larger audience.

—
Uprisings has been made
possible by the generous
support of: Esmée Fairbairn
Foundation.

—
A catalogue record for this
book is available from the
National Library of Wales and
the British Library. Texts
and images © 2014 MOSTYN and
the authors.

—
Translation: Rhian Green
Design: Elfen